Adroddiad Cyfarfod 10:10:18
Alwyn Jones – Ambiwlans Awyr Cymru

Cawsom groeso i'r cyfarfod gan Gwenan Roberts ein Llywydd, a braf oedd gweld aelodau newydd ymhlith y ffyddloniaid. Pleser oedd llongyfarch nifer o'r gangen sydd yn cymryd rhan flaenllaw yn y mudiad: mae Anne Elis yn Ysgrifennydd Cenedlaethol, Gwyneth Jones yn Is-lywydd y Rhanbarth a Mair Price yn ysgrifennydd ein cangen ac yn ysgrifennydd Rhanbarth Arfon.

Anfonwyd cofion cynnes at Mair Read a gobeithiwyd am wellhad buan i'w mam. Trefnwyd dîm ar gyfer y Cwis Cenedlaethol ar Dachwedd 9fed a dosbarthwyd y Dyddiaduron a'r Calendrau.

Alwyn Jones o elusen Ambiwlans Awyr Cymru oedd ein gŵr gwadd mis yma. Difyr iawn oedd clywed sut y cychwynnodd yr elusen ar Ddydd Gŵyl Dewi yn 2001 ac erbyn hyn mae pedwar hofrennydd a pum cerbyd ymateb cyflym ar gael o 8yb tan 8yh bob dydd o'r wythnos. Mae lleoliadau'r hofrenyddion, yn Ninas Dinlle, Y Trallwng, Llanelli a Chaerdydd, yn golygu eu bod rhyngddynt yn ddim ond 20 munud o unrhyw ddamwain. Syndod oedd clywed fod yr hofrenyddion wedi eu galw allan 201 o weithiau ym mis Awst yn unig. Clywsom sut y gall y cyhoedd gefnogi'r gwasanaeth gwerthfawr yma gan gynnwys mynychu'r caffi yn Ninas Dinlle, cyfrannu i a defnyddio eu siopau, a chynnal ymgyrchoedd codi arian. Diolchwyd i Alwyn gan Liz Watkin.

Eleri Warrington oedd enillydd y raffl.

Cofiwch ddychwelyd eich dewisiadau a'r arian ar gyfer y cinio Nadolig yng Ngwesty'r Celt yn y cyfarfod nesaf.